

Adroddiad ar

Ysgol Yr Hafod

**Bangor Road
Johnstown
Wreccsam
LL14 2TB**

Dyddiad yr arolygiad: Medi 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

Ynglŷn ag Ysgol Yr Hafod

Enw'r darparwr	Ysgol Yr Hafod
Awdurdod lleol	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Iaith y darparwr	Saesneg
Categori'r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg	
Math o ysgol	Cynradd
Cymeriad crefyddol	
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	337
Disgyblion o oed ysgol statudol	246
Nifer yn y dosbarthiadau meithrin	51
Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 22.9%)	25.9%
Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 11.1%)	6.1%
Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd	*
Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol	2.8%
Partner arweiniol mewn addysg gychwynnol athrawon	

Adroddiad ar Ysgol Yr Hafod
Medi 2025

Dyddiad penodi'r pennaeth	06/11/2017
Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol)	08/11/2016
Dyddiad dechrau'r arolygiad	22/09/2025

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

- a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

Crynodeb

Yn Ysgol Gynradd yr Hafod, mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel, yn hapus ac yn barod i ddysgu. Mae'r ysgol yn meithrin chwilfrydedd ac yn cefnogi annibyniaeth yn effeithiol, sy'n creu hinsawdd gadarnhaol ar gyfer dysgu. Mae amgylcheddau a gynlluniwyd yn dda a chyfleoedd pwrpasol i ddysgu'n annibynnol, fel 'eich tro chi' ac 'amser sialens,' yn annog disgyblion i archwilio, meddwl yn greadigol a chydweithio. Mae'r profiadau hyn yn helpu disgyblion i ddod yn ddysgwyr hyderus a gwydn sy'n ymddwyn yn dda ac yn dangos parch at bobl eraill.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref ac effeithiol sy'n hyrwyddo disgwyliadau uchel a phartneriaethau cadarnhaol ymhlith staff, rhieni a disgyblion. Mae arweinwyr yn defnyddio'r hyn y maent yn ei ddysgu am gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella i wella addysgu a chefnogi cynnydd disgyblion. Mae llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn darparu cymorth a her werthfawr i helpu arweinwyr i wella'r ddarpariaeth a'r deilliannau ar gyfer disgyblion.

Mae athrawon yn elwa ar ddatblygiad proffesiynol a gynlluniwyd yn dda sy'n eu helpu i wella'u harfer a hyrwyddo lles disgyblion. Yn gyffredinol, maent yn cynllunio profiadau dysgu sy'n ennyn ymgysylltiad disgyblion yn dda. Mae'r rhan fwyaf o'r athrawon yn defnyddio holi'n effeithiol i wirio dealltwriaeth disgyblion. Mae hyn yn galluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i adeiladu ar yr hyn y maent yn ei wybod a gwneud cynnydd da. O bryd i'w gilydd, nid yw ychydig o ddisgyblion yn gwneud y cynnydd y gallent oherwydd nad yw tasgau'n gweddu i'w hanghenion yn ddigon agos.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn glir ac yn gwrando'n ofalus, ac mae disgyblion hyn yn siarad yn hyderus am eu dysgu. Maent yn mwynhau darllen ac yn defnyddio ystod o strategaethau i ddeall testunau. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dod yn ddarllenwyr, siaradwyr ac ysgrifnwyr hyderus.

Mae'r ysgol yn datblygu dulliau defnyddiol i helpu disgyblion i fyfrio'n ystyriol ar eu cynnydd, er nad yw hyn yn gyson ar draws yr ysgol eto.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu gwybodaeth a medrau mathemategol cadarn. Maent yn defnyddio adnoddau ymarferol yn dda i gefnogi eu dealltwriaeth ac yn cymhwyso'u medrau yn effeithiol i ddatrys problemau. Mae hyn yn eu galluogi i ddyfnhau eu meddwl mathemategol.

Mae'r ysgol yn darparu cymorth cryf ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae staff yn nodi eu hanghenion yn gynnar ac yn sicrhau bod y rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd da â'u dysgu a'u lles. Mae disgyblion yn yr Uned Darparu Adnoddau

(UDA) yn elwa ar ethos gofalgwr ac yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu cefnogi a'u cynnwys yn llawn ym mywyd yr ysgol.

Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

- A1. Sicrhau bod profiadau dysgu'n darparu'r lefel gywir o her i ddiwallu gwahanol anghenion y disgyblion
- A2. Gwellu ansawdd a chysondeb yr adborth i ddisgyblion fel eu bod yn deall y camau nesaf i symud eu dysgu ymlaen

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Prif werthusiad

Yn Ysgol Gynradd Yr Hafod, mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus mewn amgylchedd difyr sy'n ennyn chwilfrydedd a hyder. Mae arweinwyr a staff yn datblygu amgylcheddau dysgu difyr sy'n cyfrannu'n dda at ddatblygiad disgyblion fel dysgwyr annibynnol.

Mae'r pennaeth yn helpu sicrhau arweinyddiaeth effeithiol. Mae'n defnyddio'i harbenigedd proffesiynol i gynorthwyo staff i gynllunio gwersi a gweithgareddau sy'n ennyn chwilfrydedd disgyblion ac yn eu hannog i ddysgu trwy archwilio annibynnol. Mae staff yn gweithio'n effeithiol gyda disgyblion a rhieni i greu diwylliant o uchelgais a disgwyliadau uchel. Mae hyn yn cynorthwyo'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) neu'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan dlodi, i wneud cynnydd da o'u manau cychwyn.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfathrebu'n effeithiol. Maent yn gwrando'n astud ac yn siarad yn glir, yn aml gan ddefnyddio geirfa fanwl gywir y mae staff yn ei modelu'n dda. Mae disgyblion iau yn defnyddio'u gwybodaeth am seiniau llythrennau yn llwyddiannus i ddarllen yn annibynnol. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae athrawon yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion hŷn ddarllen ar gyfer ymchwil a thrafod ystyr testunau a gwneud rhagfynegiadau. Mae hyn yn galluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol i ddarllen yn rhugl a gyda dealltwriaeth gadarn o'r hyn y maent yn ei ddarllen.

Mae athrawon yn defnyddio strategaethau buddiol fel ysgrifennu ar y cyd ac 'y gadair goch' i ddatblygu hyder disgyblion fel ysgrifenyddwyr. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn defnyddio nodweddion genres penodol yn gywir ac yn cymhwyso'r rhain yn eu dysgu ehangach yn effeithiol. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i ddisgyblion hŷn ysgrifennu'n ddychmygus a defnyddio adborth gan athrawon i ymestyn eu hysgrifennu yn llai datblygedig.

Mae staff yn cydweithio'n dda i sefydlu dealltwriaeth ar y cyd o ddilyniant mewn mathemateg. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn defnyddio ystod eang o adnoddau ymarferol a gweledol sy'n cefnogi eu dysgu. Mae hyn yn helpu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddatblygu gafael gadarn o gysyniadau allweddol, trin rhifau'n hyderus a chyfrifo'n gywir. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso'r medrau hyn yn effeithiol i ddatrys problemau yn gysylltiedig â gwaith testun ac yn dangos llythrennedd ariannol da. Mae ychydig o ddisgyblion hŷn yn defnyddio hunanasesu ac asesu cyfoedion mewn mathemateg yn effeithiol i esbonio'u dulliau a nodi camgymeriadau. Fodd bynnag, nid yw'r adborth yn gyson ar draws grwpiau blwyddyn, sy'n cyfyngu ar ddealltwriaeth disgyblion o sut i wella, ac yn lleihau cyfleoedd ar gyfer her.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio cymwysiaid digidol â hyder i gefnogi eu dysgu. Mae staff yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr sy'n datblygu ystod eang o fedrau digidol, ac mae disgyblion yn cymhwyso'r rhain yn effeithiol ar draws y cwricwlwm. Mae bron pob un o'r disgyblion yn deall pwysigrwydd diogelwch ar y rhyngwrdd, sy'n eu galluogi i ddefnyddio technoleg yn ddiogel.

Mae athrawon yn datblygu gwybodaeth disgyblion am eu hamgylchedd lleol a'u hunaniaeth Gymreig yn dda. Maent yn defnyddio hanes a daearyddiaeth leol i gryfhau dealltwriaeth disgyblion o gynefin a sut mae eu hardal nhw a Chymru wedi newid dros gyfnod. Mae staff yn defnyddio Cymraeg achlysurol yn effeithiol, sy'n cynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu medrau iaith. Mae bron pob un o'r disgyblion iau yn defnyddio ymadroddion Cymraeg syml yn briodol, ac mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn defnyddio geirfa gynyddol ac amrywiaeth eang o batrymau brawddeg.

Ciplun: Cyfleoedd dysgu pwrpasol sy'n meithrin annibyniaeth a chreadigrwydd

Ar draws yr ysgol, caiff disgyblion eu cymell yn fawr gan gyfleoedd rheolaidd i ddilyn eu diddordebau. Yn ystod sesiynau 'eich tro chi' ac 'amser sialens', maent yn archwilio, yn holi ac yn creu â brwdfrydedd. Mae disgyblion iau yn defnyddio Chwarae Blociau yn annibynnol i ddylunio tram a char cebl ar gyfer Y Gogarth, tra bod disgyblion hŷn yn actio cymeriadau stori gan ddefnyddio propiau i archwilio'r modd y mae gweithredoedd a mynegiannau yn dangos teimladau. Mae staff yn arsylwi'n ofalus ac yn ymyrryd yn fedrus trwy holi, modelu ac addasu'r amgylchedd i ymestyn y dysgu. Mae'r profiadau hyn yn helpu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddatblygu hyder, annibyniaeth a'r gallu i fyfyrion ystyriol ar eu dysgu.

Mae athrawon yn cynllunio'n bwrpasol i helpu disgyblion i archwilio materion cymdeithasol a moesol a datblygu gwerthoedd fel empathi, gonestrwydd a thegwch. Mae hyn yn galluogi llawer o ddisgyblion i ddangos ymwybyddiaeth o amrywiaeth mewn credoau a chael ymdeimlad cadarn o berthyn o fewn cymuned yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o fwriadau dysgu a meini prawf llwyddiant clir i arwain disgyblion yn eu dysgu. Yn yr achosion gorau, maent yn defnyddio holi a gwiriadau amserol i asesu dealltwriaeth disgyblion i fonitro'u cynnydd yn fanwl. Mae hyn yn eu galluogi i fynd i'r afael â chamdybiaethau yn gyflym. Yn gyffredinol, mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu sy'n adeiladu ar ddysgu blaenorol disgyblion yn briodol. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn darparu'r lefel gywir o gymorth na her i sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn gwneud y cynnydd y gallant ei wneud. Mae hyn yn golygu bod ychydig o ddisgyblion naill ai'n cael trafferth ymgymryd â thasgau yn llwyddiannus neu'n cwblhau gwaith nad yw'n eu hymestyn yn ddigonol.

Mae ethos cynhwysol yr ysgol, cyfathrebu clir a phrosesau wedi'u rheoli'n dda yn helpu cael gwared ar rwystrau rhag dysgu ac yn hyrwyddo lles disgyblion. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo bod yr ysgol yn gwrandio arnynt ac yn eu gwerthfawrogi, ac mae grwpiau arweinyddiaeth disgyblion yn hyrwyddo balchder yn eu hysgol. Mae athrawon a chynorthwyrwyr addysgu yn meithrin perthnasoedd gwresog a chefnogol â disgyblion. Mae'r nodweddion hyn yn creu awyrgylch cadarnhaol a phwrpasol ar draws yr ysgol, lle mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn cydweithredu'n effeithiol.

Mae arweinwyr yn meithrin partneriaethau effeithiol â rhieni a'r gymuned ehangach, sy'n meithrin cyfathrebu ac ymddiriedaeth agored. Maent yn blaenoriaethu diogelu, ac mae staff, ymwelwyr a disgyblion yn hyrwyddo diwylliant diogelu cryf ar draws yr ysgol. Mae'r ysgol yn darparu cyfnod pontio effeithiol gydag ysgolion uwchradd lleol, gan gynnwys cymorth parhaus ar gyfer cyn-ddisgyblion. Mae hyn yn sicrhau parhad mewn dysgu ac yn cefnogi lles emosiynol disgyblion yn ystod y cyfnod pontio o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7.

Mae arweinwyr yn monitro presenoldeb yn fanwl ac yn defnyddio'u perthnasoedd cadarnhaol â theuluoedd i hyrwyddo presenoldeb rheolaidd. Er bod llawer o agweddau ar bresenoldeb yn gwella, mae cyfraddau absenoldebau parhaus yn rhy uchel o hyd.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gryfder nodedig. Mae ymateb graddedig wedi'i ymgorffori'n dda yn nodi anghenion disgyblion yn gynnar ac yn helpu'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag ADY i wneud cynnydd effeithiol yn eu dysgu a'u lles. Mae'r Uned Darparu Adnoddau (UDA) yn darparu amgylchedd cefnogol lle mae staff yn defnyddio diddordebau disgyblion i ennyn eu hymgysylltiad yn bwrpasol. Mae disgyblion yn dysgu ac yn chwarae ochr yn ochr â dosbarthiadau eraill, sy'n eu helpu i deimlo'u bod yn cael eu cynnwys yn llawn ym mywyd yr ysgol.

Mae arweinwyr yn dosbarthu rolau a chyfrifoldebau yn synhwyrol i ddiwallu anghenion disgyblion ac ysgogi gwelliannau yn narpariaeth yr ysgol. Maent yn defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion (GDD) yn dda i sicrhau profiadau teg ac ymyrraeth werthfawr ar gyfer disgyblion o aelwydydd incwm isel. Fodd bynnag, mae dealltwriaeth llywodraethwyr o ddiben y grant, ei ddefnydd a'i effaith ar ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn datblygu o hyd, sy'n cyfyngu ar eu gallu i werthuso'i effeithiolrwydd yn llawn.

Mae'r corff llywodraethol yn brofiadol ac yn adnabod yr ysgol a'i chymuned yn dda. Mae hyn yn galluogi llywodraethwyr i ddarparu cymorth a her sy'n cryfhau gwaith yr ysgol mewn llawer o agweddau ar fywyd yr ysgol.

Mae arweinwyr yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth ac yn defnyddio prosesau effeithiol i nodi cryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. At ei gilydd, maent yn nodi'r blaenoriaethau pwysicaf yn gywir, yn cynllunio camau gweithredu pwrpasol i fynd i'r afael â'r rhain, ac yn

adolygu cynnydd yn llwyddiannus. Maent yn mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol yn effeithiol ac yn parhau i gryfhau medrau Cymraeg disgyblion.

Ciplun: Gweithdrefnau datblygu perfformiad effeithiol ac arloesol

Mae prosesau datblygu perfformiad yr ysgol yn gadarn, yn arloesol ac yn addasadwy. Mae staff yn gwerthfawrogi nodau personoledig sy'n rhoi perchnogaeth iddynt o wella'u harfer broffesiynol. Mae arweinwyr yn annog staff i hunanfyfrio. Mae hyn yn helpu cael gwared ar gyfyngiadau ac yn galluogi trafodaethau agored, didwyll sy'n cysylltu'n glir â'r Safonau Proffesiynol a blaenoriaethau'r ysgol. Mae arweinwyr yn defnyddio amser dysgu proffesiynol yn greadigol. Mae hyn yn galluogi athrawon i gydweithio'n effeithiol mewn timau, tra'n rhoi cyfleoedd iddynt wneud gwaith ymchwil annibynnol, hefyd. Mae'r dulliau hyn yn meithrin gwaith tîm ac yn gwella addysgu, dysgu a lles disgyblion.

Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, yn cynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrandio arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. '*y rhan fwyaf o ddisgyblion...*' neu '*ychydig iawn o ddisgyblion...*'. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

bron pob un =	gydag ychydig iawn o eithriadau
y rhan fwyaf =	90% neu fwy
llawer =	70% neu fwy
mwyafrif =	dros 60%
hanner =	50%
tua hanner =	yn agos at 50%
lleiafrif =	islaw 40%
ychydig =	islaw 20%
ychydig iawn =	llai na 10%

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn
(www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir aildddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei aildddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol

Dyddiad cyhoeddi: 24/11/2025